Annwyl Rieni / Ofalwyr 17.07.2025

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, hoffai staff manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth dros y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad trwy gydol y flwyddyn. Diolch i'r Llywodraethwyr am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad a'u harweinyddiaeth strategol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur unwaith eto, gyda llawer o lwyddiannau ar draws yr ysgol gyfan. Bu'r holl ddisgyblion, a'n plant Meithrin carfan newydd yn cymryd rhan mewn sesiynau pontio cyffrous sydd wedi eu helpu i edrych ymlaen at fis Medi. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar deithiau preswyl a mae pob grŵp blwyddyn hefyd wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd neu daith hwyl diwedd blwyddyn. DIOLCH enfawr i'r holl staff nid yn unig am drefnu'r gweithgareddau hyn ond am sicrhau bod y disgyblion yn mwynhau pob eiliad. Gallwch barhau i ddilyn ein gweithgareddau ar X *@ysgolbroogwr* neu edrychwch ar ein cylchlythyr diwedd tymor yr Haf ar y wefan www.ysgolbroogwr.cymru.

**Dyddiadau Calendr**

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ddydd **Mawrth 2 Medi, 2025.**
Ein diwrnodau HMS a gadarnhawyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yw:

| | |
|---|---|
| Dydd Llun 1 Medi 2025 | Dydd Gwener 24 Hydref 2025 |
| Dydd Gwener 27 Chwefror 2026 | Dydd Gwener 1 Mai 2026 |
| Dydd Gwener 12 Mehefin 2026 | Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026 |

Gweler calendr 25-26 ar y wefan ar gyfer gwybodaeth a gweithgareddau ysgol blwyddyn nesaf. Bydd hyn yn cael ei ail-ddosbarthu a diweddaru wrth i ragor o weithgareddau ac ymweliadau gael eu ychwanegu wrth i'r flwyddyn fynd ymlaen.

**Noson Agored! 'Cwrdd a'r Athro – Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6**

Ar y calendr fe welwch Noson Agored i rieni ar Ddydd Llun Medi 8fed. Hoffem wahodd rhieni / gofalwyr i'r ysgol rhwng 16.00 a 17.30 i: gwrdd ag athro dosbarth eich plentyn, ymweld â'u dosbarth ac i dderbyn gwybodaeth berthnasol am y flwyddyn academaidd hon. Nid oes angen cadw lle, dewch draw. Bydd dau gyflwyniad byr gan yr athrawon dosbarth yn y dosbarthiadau am 16.00 a 17.00. Bydd hyn yn caniatáu i rieni sydd â mwy nag un plentyn fynychu mwy nag un cyflwyniad dosbarth neu fynychu'r un olaf oherwydd ymrwymiadau gwaith. Os na allwch fynychu, bydd yr athro dosbarth yn lanlwytho'r pwerpwynt i Hwb yn dilyn y noson agored. Bydd lluniaeth ar gael yn neuadd yr ysgol yn ystod y cyfnod yma.

**Gwisg Ysgol**

Mae hwn yn amser rhagorol o'r flwyddyn i'ch atgoffa o wisg ysgol cyn i chi baratoi a gwneud trefniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi. Cefnogwch ni i sicrhau delwedd ysgol gref ac undod ar draws yr ysgol. Gall y rhain ymgorffori logo'r ysgol ai peidio - mae logo'r ysgol yn ddewisol. Gofynnwn i chi roi enw'ch plentyn ar bob eitem os gwelwch yn dda!

Crys Polo Coch    Siwmpwr / Cardigan / Hoodie Gwyrdd    Trowsus / Siorts / Sgert Llwyd
Ffrog Haf Gwyrdd / Coch    Esgidiau **Du** neu Esgidiau Chwaraeon **Hollol Ddu**

Dillad Addysg Gorfforol - byddwn yn parhau i ofyn i ddisgyblion ddod i'r ysgol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol mewn dillad Addysg Gorfforol, a byddwn yn gofyn am grys polo gwyn a siorts du / trowsus jogio gydag esgidiau ymarfer corff addas.

Rydym yn croesawu rhoddion o wisg ysgol glân, mewn cyflwr da ar gyfer ein rheiliau dillad 'helpwch eich hun' am ddim. Mae croeso i chi bori'r rheiliau hyn (yn y dderbynfa) fel y dymunwch.

**Ffarwel**

Pob lwc i'n holl ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddyn nhw ein gadael a chychwyn ar bennod nesaf eu haddysg.

**Gwaith ar Safle'r Ysgol**

Mae gwaith adeiladu yn digwydd ar safle'r ysgol dros wyliau'r Haf - mae'r Awdurdod lleol yn gosod caban ychwanegol ar safle'r ysgol. Dyddiad cwblhau'r gwaith yw mis Hydref, felly bydd ychydig o waith dal yn digwydd ar safle'r ysgol wrth gychwyn nol ym mis Medi. Rydyn yn ffyddiog ni fydd y gwaith yn amharu ar lawer o weithdrefnau'r ysgol ond byddwn yn asesu'r safle wrth ddychwelyd ac yn rhoi diweddariad i chi wrth gychwyn nôl ar ddydd Llun 1 Medi.

Unwaith eto, rydym yn diolch ichi am eich cydweithrediad parhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw cyfeiriad e-bost yr ysgol yn cael ei fonitro fel mater o drefn dros wyliau'r Haf, felly gofynnwn i chi gysylltu â BCBC yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau na all aros tan fis Medi cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Bydd ysgol ar agor i ymholiadau ar ddiwrnod HMS o 08.30 ar ddydd Llun 1 Medi.

**Mwynhewch wyliau'r Haf. Edrychwn ymlaen i weld yr holl ddisgyblion nôl ar ddydd Mawrth 2 Medi, 2025.**

Sharon Jayne - Pennaeth

Dear Parents/Carers 17.07.2025

At the end of the school year, staff would like to take this opportunity to thank you all for your support over the year. A big thank you to the pupils and staff for their hard work and dedication this year. Thank you to the Governors for their support, co-operation and strategic leadership during the past year.

It has once again been a busy year, with many successes across the whole school. All pupils, including our new Nursery intake took part in exciting transition sessions which have helped them look forward to September. Year 5 and 6 pupils attended residential trips and all year groups have also had the opportunity to take part in an end of year fun trip / activity. A huge DIOLCH to all the staff for not only arranging these activities but ensuring the pupils enjoyed each moment. You can continue to follow our activities on X *@ysgolbroogwr* or please see our end of term Summer newsletter on the website www.ysgolbroogwr.cymru.

**Calendar Dates**

We look forward to welcoming the pupils back to school on **Tuesday 2 September, 2025.**
Our confirmed INSET days for next year are:

| | |
|---|---|
| Monday 1 September 2025 | Friday 24 October 2025 |
| Friday 27 February 2026 | Friday 1 May 2026 |
| Friday 12 June 2026 | Monday 20 July 2026 |

Please see 24-25 calendar on the website for further dates and information on school activities for next year. This will be re-sent and updated with extra activities and trips added as the year progresses.

**Open Evening! 'Meet the Teacher' - Reception class to Year 6**

On the calendar you will see an Open Evening for parents on Monday 8th September. We would like to invite parents / carers to the school between 16.00 and 17.30 to: meet your child's class teacher, visit their classroom and to receive relevant information about this academic year. Booking is not required, just come along. There will be two short presentations by the class teachers in the classrooms at 16.00 and 17.00. This will allow parents with more than one child to attend more than one class presentation or to attend the later one due to work commitments. If you cannot attend, the class teacher will post the Powerpoint presentation on Hwb following the evening. Refreshments will be available in the school hall during this time.

**School Uniform**

This is an excellent time of year to remind you of school uniform before you prepare and make arrangements for the new school year in September. Please support us in ensuring a strong school image and unity across the school. These may incorporate the school logo or not – the school logo is optional.

Red Polo Shirt Green Jumper / Cardigan / Hoodie Grey Trousers / Shorts / Skirt
Green / Red Summer Dress **Black** Shoes or All **Black** sport / trainer style

PE Clothing – we will continue to ask pupils to come to school on PE days in PE clothing, for which we will ask for a white polo shirt and black shorts / jogging bottoms with suitable trainer shoes.

We welcome donations of clean, preloved uniform in good condition for our free 'help yourself' clothing rails. Please feel free to browse these rails (at reception) as you wish.

**Farewell**

Good luck to all our Year 6 pupils as they leave us and embark on the next chapter of their education.

**Construction Work on-site**

Construction work is to be completed on-site over the Summer holidays – the local authority are placing another portacabin on-site. Completion date is October, therefore there will be some work still on-going on-site when we return in September. We are hopeful that the work won't disrupt our procedures too much but we will assess the site upon return in September and will provide an update on first day back, Monday 1 September.

Once again, we thank you for your ongoing co-operation during the past year. The school email address is not routinely monitored over the Summer holidays, so we ask you to please contact BCBC directly with any queries prior to the start of the new academic year which cannot wait until September. School will be open for queries on the INSET day from 08.30 on Monday 1 September 2025.

**Enjoy the Summer holidays. We look forward to seeing all pupils back on Tuesday 2 September, 2025.**

Sharon Jayne - Headteacher